# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin yr Enfys**

**Clwb Bechgyn a Merched Ystrad Mynach**
**Lisburn Road**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7AS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/11/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin yr Enfys yn darparu gofal sesiynol i blant rhwng dwy a phedair oed ac mae wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ofalu am hyd at 20 o blant dan 12 oed. Mae'r gwasanaeth yn cynnal sesiynau bore rhwng 9:00 a 12:00 bob bore yn ystod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Mae'r Pwyllgor wedi penodi Unigolyn Cyfrifol i weithredu ar ei ran, ac mae Person â Chyfrifoldeb yn rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yw hwn.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae canlyniadau'r plant yn dda o ran eu llesiant. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu sy'n addas i'w hoedran er mwyn hybu eu datblygiad. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarn â'u gofalwyr, sy'n cynnig gofal ymatebol a magwrus er mwyn sicrhau y caiff anghenion unigol y plant eu cefnogi. Mae llawer o adnoddau ar gael i'r gwasanaeth. Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Dyma oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. Gwnaethom argymhellion arfer dda, sydd wedi'u crynhoi yn adran 5.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae’r plant yn cael eu hannog yn gyson i wneud dewisiadau a mynegi eu hunain. Maent yn hapus ac yn cael hwyl yn y gwasanaeth. Maent yn cael cyfleoedd a phrofiadau da i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau er mwyn hybu eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y plant lais yn y gwasanaeth hwn. Maent yn mynd at y staff i sgwrsio neu ofyn am gymorth. Gwelsom y staff yn annog y plant i ddewis beth roeddent am chwarae ag ef ac roeddent yn amlwg yn gyfarwydd iawn â'r gweithgareddau a'r ardaloedd a oedd ar gael. Caiff hunanfynegiant y plant ei annog a gwelsom y staff yn gwrando ar y plant yn ofalus ac yn dangos diddordeb yn eu sgyrsiau. Mae ganddynt amser i ymateb i gwestiynau a chael ymatebion cadarnhaol sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion i gyfathrebu. Caiff diddordebau'r plant eu cynnwys wrth gynllunio gweithgareddau.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn meithrin cydberthnasau agos â'r gweithwyr allweddol ac maent yn teimlo'n gyfforddus i fynd at unigolion cyfarwydd pan fydd angen help neu sicrwydd arnynt. Maent yn gyfarwydd ag arferion y gwasanaeth ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o sicrwydd. Yn ystod amser carped, roedd y plant yn dewis pa ganeuon roeddent am eu canu.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n briodol ac yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dysgu sut i rannu a chwarae gyda'i gilydd, ac mae angen arweiniad a chysur ar rai o'r plant iau pan nad ydynt yn cael yr hyn yr hoffent ei gael bob amser. Gwelsom fod rhai o'r plant yn hoffi chwarae ar eu pen eu hunain, er bod y rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio ac yn mwynhau'r cyfle i chwarae gyda phlant eraill. Mae'r plant yn cael eu canmol a'u hannog gan y staff yn gyson pan fyddant yn rhoi cynnig ar dasgau ac mae'n amlwg eu bod yn gwerthfawrogi'r ganmoliaeth y maent yn ei chael.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ond maent yn gallu ymlacio a mwynhau adegau tawel hefyd. Gallant ganolbwyntio am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu cam datblygu. Cânt gyfnodau estynedig o chwarae di-dor sy'n cael eu dechrau gan y plant, yn ogystal â chyfleoedd rheolaidd i'r oedolion chwarae ochr yn ochr â nhw. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau a oedd yn briodol i'w hoedran a'u cam datblygu ar gael i'r plant. Gallai'r plant ymuno â gweithgaredd wedi'i arwain gan oedolyn gyda'r rhyddid i adael i ymuno â gweithgaredd arall ar unrhyw adeg. Roedd awyrgylch prysur ond hamddenol, gyda'r plant wedi ymgolli mewn chwarae a dysgu o'u dewis.

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar, chwilfrydig sy'n dechrau datblygu sgiliau hunangymorth a sgiliau annibynnol. Mae llawer o'r plant yn hunanhyderus ac yn mwynhau cyfleoedd i reoli eu hamser eu hunain, er bod plant eraill yn cael budd o fwy o anogaeth. Caiff y plant eu hannog i olchi eu dwylo'n annibynnol yn barod i fwyta eu byrbryd ac i dacluso pan fyddant wedi gorffen chwarae, gan ofyn am gymorth pan fo angen.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r plant yn cael gofal gan staff brwdfrydig sydd wedi cymhwyso'n briodol. Mae yna ddisgwyliadau cyson o ran ymddygiad a chaiff y rhyngweithio ei reoli'n dda. Mae systemau addas ar waith i fonitro cynnydd y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Mae polisi diogelu ar waith sy'n cyfeirio at y ddyletswydd Atal, ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant. Gwelsom fod hyfforddiant gorfodol megis diogelu, hylendid bwyd a chymorth cyntaf pediatrig yn cael ei ddiweddaru mewn modd amserol. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n effeithlon, a'u gwerthuso er mwyn nodi unrhyw batrymau. Mae system gofnodi ar waith yn y gwasanaeth er mwyn cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes pan fydd plant yn mynychu'r gwasanaeth. Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw drwy gael cymorth i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled. Rhoddir byrbrydau iach a dŵr neu laeth i'w yfed i'r plant, ond nid oedd dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol y sesiwn, y gallant helpu eu hunain iddo.

Mae gan y staff ddisgwyliadau realistig o'r plant ac mae'r strategaethau i reoli ymddygiad cymdeithasol y plant yn briodol i'w hoedran ac yn gadarnhaol. Maent yn cydweithio'n agos i sicrhau bod ganddynt ddull cyson o weithredu yn unol â'u polisi ymddygiad. Mae'r staff yn gweithredu fel modelau rôl da, gan annog y plant i fod yn garedig i'w gilydd a helpu i dacluso, ac maent yn eistedd gyda nhw ar gyfer eu byrbrydau er mwyn hybu eu sgiliau cymdeithasol.

Mae'r plant yn cael gofal gan staff sy'n ofalgar ac sy'n ymateb i'w hanghenion. Maent yn frwdfrydig sy'n sicrhau bod chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn cael eu hybu. Caiff anghenion personol y plant sylw yn brydlon a chânt eu trin â pharch. Caiff datblygiad y plant ei fonitro a'i asesu er mwyn cynllunio ar gyfer camau nesaf eu dysgu. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda a chlywsom y staff yn eu canmol a'u hannog yn gyson, a roddodd yr hyder iddynt ymestyn eu chwarae a'u dysgu.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn ddeniadol i blant. Caiff yr ardaloedd chwarae eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae'r adnoddau mewn cyflwr da. Mae digon o weithgareddau i gynnal diddordeb y plant a'u hysgogi, ac mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y feithrinfa'n ddiogel ac na chaniateir unrhyw fynediad diawdurdod. Gofynnir i ymwelwyr ddangos prawf adnabod wrth gyrraedd a llofnodi llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Cedwir cofrestri o bresenoldeb y plant, ond nid ydynt yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant. Caiff y drws ffrynt ei gadw ar glo a'i fonitro gan y staff. Cynhelir gwiriadau diogelwch o'r safle bob dydd ac mae amrywiaeth o asesiadau risg ar waith ar gyfer gweithgareddau a theithiau. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi'n briodol. Cynhaliwyd gwiriad diogelwch nwy a chwblhawyd Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant ac yn darparu ardaloedd chwarae croesawgar. Mae cynllun yr ystafell yn hyrwyddo annibyniaeth y plant am fod yr adnoddau yn hawdd eu cyrraedd ar y cyfan, gan olygu y gall y plant ddewis teganau o'u dewis heb orfod cael cymorth oedolyn. Mae yna ardaloedd dynodedig ar gyfer chwarae rôl a gweithgareddau chwarae blêr, gan alluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau heb amharu ar ei gilydd. Mae ardaloedd darllen ar gael i'r plant sydd am eistedd ac edrych ar lyfr. Mae'r toiledau a'r sinciau wedi'u lleoli yn ymyl y brif ystafell. Caiff gwybodaeth berthnasol ei harddangos ar gyfer y rhieni ar hysbysfwrdd, gan gynnwys yswiriant a lluniau o'r staff.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da ac sy'n addas o ran eu datblygiad. Defnyddir eitemau 'go iawn' a deunyddiau wedi'u hailgylchu er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol. Mae gan y gwasanaeth rai adnoddau amlddiwylliannol yn ogystal â'r rheini sy'n adlewyrchu cymdeithas ehangach ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r adnoddau'n cefnogi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn briodol ar gyfer anghenion a diddordebau'r plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn dda. Roedd y Person â Chyfrifoldeb wedi ymgysylltu'n llwyr â'r broses arolygu. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned ehangach yn effeithiol ac maent er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y person â chyfrifoldeb weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'n ei rhannu'n effeithiol ag eraill. Er enghraifft, mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir a llawn gwybodaeth o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol ac y caiff unrhyw hyfforddiant gloywi ei drefnu cyn dyddiad dod i ben yr hyfforddiant blaenorol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd contractau'r plant y gwnaethom eu harchwilio yn gyflawn ac roedd cydsyniad gofynnol y rhieni'n amlwg.

Mae systemau priodol ar waith i hunanwerthuso'r gwasanaeth. Caiff adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal ei lunio. Mae hwn yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn cynnwys adborth gan y rhieni, ond nid oedd yn cynnwys adborth gan y staff na'r plant. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn aml er mwyn hybu cydweithio. Mae gweithdrefn gwyno ar waith, er nad oes unrhyw gwynion wedi dod i law hyd yn hyn.

Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n dda a chaiff y staff eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r staff yn gweithio'n gadarnhaol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd er mwyn sicrhau bod y diwrnod yn mynd rhagddo'n ddidrafferth. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys tystiolaeth o ddulliau recriwtio a monitro effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn aelod o sefydliad ymbarél sy'n darparu cymorth os oes angen.

Mae partneriaethau sefydledig â'r rhieni, asiantaethau eraill a'r gymuned ehangach. Mae gan y cylch chwarae system ar waith i gasglu gwybodaeth am anghenion a dewisiadau'r plant wrth eu cofrestru. Gwelsom dystiolaeth ffotograffig o'r plant yn mynd ar deithiau i'r parc lleol ac i'r siop i brynu ffrwythau. Mae'r cylch chwarae yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni drwy adborth dyddiol, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a nosweithiau rhieni.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r Person â Chyfrifoldeb;

- sicrhau bod dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol y sesiwn, fel y gallant helpu eu hunain;
- cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant a'r staff;
- cynnwys adborth gan y staff a'r plant yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ddwywaith, ac roedd yr ymweliad cyntaf yn ddirybudd. Fel rhan o'r arolygiad gwnaethom y canlynol:

- cynnal gwiriad gweledol o'r safle;
- arsylwi ar arferion gofal;
- rhyngweithio â'r plant;
- siarad â'r staff;
- edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth;
- ystyried gwybodaeth oedd ar gael i AGC cyn yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Anna Webb-Price** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Lisa Batten** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 i 4 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9:00 a 12:00 yn ystod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **27 a 28 Tachwedd 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy – lleoedd a ariennir** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/02/2020